# Asesiad Effaith Integredig

## Cynllun Strategol Llais 2024-2027 a Chynllun Blynyddol Llais 2024-2025.

Cwblhewch y tabl canlynol i nodi a fydd y grwpiau canlynol yn cael eu heffeithio'n andwyol, yn gadarnhaol yn wahaniaethol gan y cynnig neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl.

| Effaith | Dim | Negyddol | Cadarnhaol | Asesiad |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oed | | | X | Mae ein cynllun strategol yn cyfeirio'n benodol at gynnwys plant a phobl ifanc yn ein gweithgareddau er mwyn sicrhau y gallwn gynrychioli eu lleisiau yn effeithiol.<br><br>Er nad oes cyfeiriad penodol at bobl hŷn yn y cynllun, mae ein data yn dweud wrthym ein bod yn cyrraedd rhai cymunedau hŷn eisoes ac y byddwn yn ymateb yn ein gweithgareddau i'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym.<br><br>Mae'r cyfrifiad yn dweud wrthym fod gennym boblogaeth sy'n heneiddio, a deallwn fod hyn yn (ac y bydd yn parhau i) cael effaith ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |



DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae ein gwaith i helpu i ddylanwadu ar a siapio iechyd a gofal cymdeithasol drwy ymdrechu i fod yn bartner allweddol mewn ymgysylltu pobl-ganolog yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn. |
| Anabledd | | | X | Bydd y cynllun hwn ar gael mewn amrywiaeth o fformatau gan gynnwys Hawdd ei Ddarllen a bydd yn cael ei ymgorffori yn ein gwefan er mwyn caniatáu mynediad gwell i'r rhai sy'n defnyddio cymhorthion cyfathrebu.<br><br>Rydym yn y broses o gael gwasanaethau dehongli Iaith Arwyddion Prydain i ganiatáu ar gyfer datblygu dogfennau allweddol (gan gynnwys yr un hwn) i mewn i fideo gydag isdeitlau hygyrch.<br><br>Mae'r meysydd ffocws a nodir yn y cynllun hwn yn hyrwyddo arfer gwell yn weithredol.<br><br>Mae gwella ein cyfathrebu a'r ffordd yr ydym yn hyrwyddo gwasanaethau ar y cyd ag ymgorffori tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn, yn enwedig o ran hygyrchedd. |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhyw/rhywedd | X | | | Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi ar gyfer y nodwedd hon. Nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at ryw yn y cynllun.<br><br>Fodd bynnag, gall y blaenoriaethau a'r canlyniadau a amlinellir yn y cynllun gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn. |
| Hil | | | X | Mae’r cynllun hwn yn cydnabod bod gennym ddyletswydd i fod yn wrth-hiliol ac er nad oes unrhyw sôn penodol am sut y gellid cyflawni hyn yn y cynllun hwn, mae ein meysydd ffocws a’n canlyniadau cyfunol wedi’u creu i sicrhau bod ein gwaith a’n gweithgareddau yn cael eu deall gan gymunedau amrywiol.<br><br>Rydym yn deall bod meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth yn allweddol i sicrhau ein bod yn clywed pobl o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau Sipsiwn, Roma, a Theithwyr nad ydynt yn cael eu clywed yn aml o bosibl.<br><br>Ein huchelgais yw tyfu a gwella fel sefydliad a dylai’r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn. |
| Crefydd/Credoau | | | X | Er nad oes unrhyw gyfeiriadau penodol at Grefydd/Credoau yn y cynllun hwn, dylai’r camau gweithredu a nodir o dan ein |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | meysydd ffocws sicrhau nad yw ein harferion a'n prosesau mewnol ac allanol yn niweidiol ac yn hyrwyddo tegwch a hygyrchedd ar gyfer y nodwedd warchodedig hon. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | X | Unwaith eto, mae'r cynllun yn cydnabod ein hymrwymiad i fentrau ehangach llywodraeth Cymru fel y cynllun gweithredu LGBTQ+.<br><br>Ni chyfeirir yn benodol at gyfeiriadedd rhywiol yn y cynllun hwn ond mae gan y ffocws a'r canlyniadau y mae'n eu nodi'r potensial i gael effaith gadarnhaol a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y grŵp hwn.<br><br>Fel yr amlinellwyd yn y cynllun, ein nod yw parhau i wrando a chynrychioli lleisiau'r rheini yng Nghymru.<br><br>Fel gydag unrhyw grŵp arall, lle rydym yn nodi heriau a rhwystrau i wasanaethau, byddwn yn gweithredu i helpu i godi pryderon a defnyddio ein dylanwad i'w datgymalu. |
| Ailbennu rhywedd | | | X | Defnyddir iaith niwtral o ran rhyw drwy gydol y ddogfen.<br><br>Nid yw'r cynllun hwn yn cynnwys manylion penodol ynghylch sut y gall ein gwaith |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | effeithio ar bobl drawsrywiol. Gall hyn achosi pryder i unigolion traws, fodd bynnag, dylai'r camau gweithredu sy'n rhan o'r cynllun hwn sicrhau nad yw ein gwaith yn cael unrhyw effaith andwyol ar y nodwedd warchodedig hon.<br><br>Fel y nodwyd uchod, rydym yma i wrando ac un o'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun hwn yw ein bod yn gwthio am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb.<br><br>Mae'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn yn debygol o gael ei gyflawni trwy ein gweithredoedd, gyda dealltwriaeth bod ymddiriedaeth a hygyrchedd yn allweddol i sicrhau y gallwn weithio gyda'n gilydd i gyflawni hyn. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | | | X | Er nad oes dyletswydd heblaw dileu gwahaniaethu o ran cyflogaeth, nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi fel rhan o'r gwaith hwn.<br><br>Fel gyda'r grwpiau gwarchodedig eraill, mae gan y gwaith a wneir fel rhan o'r cynllun hwn y potensial i sicrhau ein bod yn cwrdd â'r gofynion mewnol.<br><br>Wrth i ni ymgorffori tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ym |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | mhopeth a wnawn, dylem fod yn bodloni ein gofynion o dan y PSED.<br><br>Mae'r cynllun hwn yn rhedeg ochr yn ochr â'r CCS 24-28 sydd hefyd yn ymdrin â hyn. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | | | X | Mae gan y meysydd ffocws a chanlyniadau a nodir yn y cynllun hwn y potensial i ddileu anghydraddoldebau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y grŵp hwn.<br><br>Unwaith eto, mae'r ymwybyddiaeth gynyddol o bwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a sut y gallwn gefnogi'r grŵp hwn i godi eu lleisiau a'u pryderon yn allweddol i'n galluogi i wneud hyn. |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Iaith Gymraeg | | | X | Mae'r cynllun hwn ar gael yn Gymraeg ac anogir pobl i gyfathrebu â ni yn eu dewis iaith.<br><br>Er nad oes cyfeiriad penodol at yr iaith Gymraeg yn y cynllun hwn, bydd ein gwaith ehangach ar gyfathrebu yn cwmpasu'r grŵp hwn.<br><br>Yn ogystal, mae sicrhau mynediad at wasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl yn debygol o ymgorffori elfennau o hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rywfaint o'n gwaith ymgysylltu blaenorol. |
| Ieithoedd Eraill | | | X | Rydym yn y broses o gaffael gwasanaethau cyfieithu er mwyn i'n dogfennau allweddol (y mae'r cynllun hwn yn un ohonynt) fod ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd.<br><br>Yn y cyfamser rydym wedi annog pobl i gysylltu â ni i sicrhau eu bod yn derbyn y cynllun hwn yn eu dewis iaith.<br><br>Fel rhan o'n meysydd ffocws allweddol ac ar y cyd â'r gweithgareddau a'r amcanion a nodir yn y CCS 24-28, mae potensial i gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn a'u mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| Hawliau Dynol | | | X | Cynlluniwyd y cynllun hwn i sicrhau ein bod yn parhau i roi pobl wrth wraidd popeth a wnawn fel y dengys ein blaenoriaethau. |
| Amddifadedd | X | | | Dim effeithiau wedi'u nodi ar gyfer y grŵp hwn.<br><br>Fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau ein bod yn gwrando ar bobl Cymru, rydym wedi ymrwymo i godi pryderon yn y maes hwn lle nodir heriau. |
| Person(au) gyda dibynyddion | | | X | Mae'r grŵp hwn wedi'i nodi o dan ein blaenoriaethau o |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion pawb.<br><br>Rydym yn cydnabod rôl hanfodol rhoddwyr gofal ac rydym am weithio gydag eraill i gydnabod eu cyfraniadau at iechyd a lles cymunedol ochr yn ochr â datblygu cymorth ac adnoddau i helpu i wella eu bywydau. |
| Preswylfa wledig | X | | | Yn ehangach, gall cwmpas blaenoriaethau a chamau gweithredu'r cynllun hwn hwyluso newid cadarnhaol i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau oherwydd eu natur wledig.<br><br>Er nad oes unrhyw effeithiau penodol wedi'u nodi, mae'n bosibl y bydd effaith gadarnhaol bosibl fel rhan o'r gwaith hwn.<br><br>Mae ystyriaeth o sut y bydd y cynllun hwn yn cael ei rannu gyda'r rhai a allai wynebu gwaharddiad oherwydd preswylfa wledig wedi'i hystyried isod ar y cyd â phobl sy'n agored i niwed yn ddigidol. |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | | | X | Gweler Hil. |
| Yn agored i niwed yn ddigidol | | | X | Cyfeirir yn benodol at dechnoleg yn y cynllun hwn fel rhan o'n blaenoriaethau.<br><br>Rydym yn cydnabod bod angen mwy o gefnogaeth a sicrwydd ar |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rai pobl i feithrin eu hyder wrth ddefnyddio technolegau newydd.<br><br>Ein ffocws yw cynyddu cynhwysiant digidol, gan sicrhau bod pobl yn cymryd rhan yn natblygiad technoleg newydd o fewn iechyd a gofal.<br><br>Mae'r flaenoriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg mewn ffordd sy'n hygyrch iddynt o ystyried eu:<br><br>- hanghenion dysgu<br>- gofynion hygyrchedd ehangach a;<br>- rhwystrau economaidd-gymdeithasol a all achosi heriau ychwanegol wrth gael mynediad at dechnoleg naill ai trwy gyllid, offer neu gyfleoedd.<br><br>Bydd y cynllun hwn ar gael mewn fformatau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o allgáu digidol. |
| Cenedlaethau'r dyfodol | | | X | Mae'r cynllun hwn, ei flaenoriaethau a'i ganlyniadau yn gweithio tuag at y nodau llesiant canlynol: Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynys a Chymru Iachach. |

## Asesiad cyffredinol o'r effaith bosibl ar grwpiau penodol

| |
|---|
| **Crynodeb**<br><br>Mae'r asesiad hwn yn cyfeirio'n bennaf at Gynllun Strategol 2024-2027 ond mae'n drosfwaol i ystyried effeithiau ein Cynllun Blynyddol 2024-2025. Rydym wedi mabwysiadu'r dull hwn gan fod ein Cynllun Blynyddol wedi'i lywio'n uniongyrchol gan ein Cynllun Strategol a bydd unrhyw effeithiau wedi'u hystyried yn ystod y broses ddatblygu.<br><br>Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn ystod datblygiad y cynllun hwn. Mae ein Cynllun Strategol wedi'i ddrafftio gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth fewnol ee sesiynau ymgysylltu â staff a thystiolaeth allanol ee adroddiadau allanol a gwybodaeth o'r cyfrifiad.<br><br>Fel rhan o ddatblygiad y cynllun hwn, mae'r blaenoriaethau strategol ar gael trwy amryw o sianeli gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan er mwyn i bobl rannu eu barn a'u hadborth i sicrhau bod ein cyfeiriad yn cyd-fynd â'r hyn y maent wedi'i ddweud wrthym.<br><br>Mae'r cynllun hwn yn annog ffyrdd newydd o weithio a rhoi cynnig ar bethau newydd i sicrhau ein bod yn gosod yr esiampl ar gyfer cynhwysiant, ochr yn ochr â'r CCS 24-28. Fel y nodwyd trwy gydol yr asesiad hwn, mae llawer o botensial ar gyfer effaith gadarnhaol ar ystod o nodweddion gwarchodedig. |
| **Pa gamau a gymerir i liniaru unrhyw effaith negyddol bosibl ar grŵp(iau) penodol?**<br><br>Fel gyda'r rhan fwyaf o'r strategaeth gyffredinol mae'n debygol y bydd prosiectau a ffrydiau gwaith unigol yn cael eu nodi fel rhan o'r cynllun hwn. Fel rhan o'r didwylledd a thryloywder a amlygwn yn y ddwy ddogfen, byddwn yn sicrhau bod y darnau hynny o waith wedi asesu eu heffeithiau ar grwpiau penodol yn unigol. |

| |
|---|
| Mae'r uchod hefyd yn ymwneud ag unrhyw brosiectau neu waith a nodir fel rhan o'n Cynllun Blynyddol.<br><br>Yn gyffredinol, dylai'r blaenoriaethau, y meysydd ffocws a'r canlyniadau a nodir yn y cynllun hwn ynddynt eu hunain liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar grwpiau penodol fel y manylir yn y cynnwys.<br><br>Bydd adroddiadau rheolaidd i'n Bwrdd yn monitro ein perfformiad yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn ac i sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu'r hyn yr ydym wedi bwriadu ei wneud. |
| **Iaith Gymraeg**<br><br>Mae'r cynnig hwn wedi'i asesu yn unol â'n gofynion iaith Gymraeg ar gyfer safonau.<br><br>**Canlyniad**<br><br>Dim effaith. |
| **Diogelu Data**<br><br>Mae'r cynnig hwn wedi'i asesu yn unol â'n cyfrifoldebau diogelu data.<br><br>**Canlyniad**<br><br>Nid oes angen DPIA. |

**Dogfen wedi'i hystyried a'i hasesu gan _______ar _________**